Y Comisiwn Etholiadol

Etholiadau Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 5 o 6 – Eich hawl i fynd

Dim ond i etholiad Senedd Ewrop ym Mhrydain Fawr ar 22 Mai 2014 y mae'r ddogfen hon yn berthnasol. Gellir cael mynediad at ein canllawiau ac adnoddau i'r holl etholiadau eraill oddi ar ein gwefan yn: http://www.electoralcommission.org.uk/i-am-a/candidate-or-agent.

Cynnwys

Cynnwys 1
Gwybodaeth hanfodol 3
Agor pleidleisiau drwy'r post 3
Beth mae asiant pleidleisio drwy'r post yn ei wneud? 4
Beth yw pleidleisio drwy'r post? 4
Beth mae'r pecyn pleidleisio drwy'r post yn ei gynnwys? 5
Pryd mae pleidleisiau drwy'r post yn cael eu hagor a sut fyddwch chi'n gwybod pan fydd sesiwn agor yn cael ei chynnal? 6
Dyletswydd i gynnal cyfrinachedd 6
Siart lif y broses sesiwn agor 7
Datganiadau pleidleisio drwy'r post sy'n annilys ac a wrthodwyd 9
Gorsafoedd pleidleisio 9
Pwy all bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio? 10
Oriau agor gorsafoedd pleidleisio 10
Dod o hyd i leoliad y gorsafoedd pleidleisio 11
Beth mae asiant pleidleisio yn ei wneud? 11
Cynnal cyfrinachedd y bleidlais 12
Beth yw'r broses bleidleisio arferol? 12
Casglu papurau pleidleisio drwy'r post o'r orsaf bleidleisio 13
Rhifwyr 13
Beth sy'n digwydd ar ôl i'r pleidleisio gau? 14
Y dilysu a'r cyfrif 14
Pwy all fynychu'r dilysu a'r cyfrif? 15
Beth mae asiant cyfrif yn ei wneud? 16
Pryd a lle fydd y dilysu a'r cyfrif yn digwydd? 16

Sut fydd y pleidleisiau yn cael eu dilysu a'u cyfrif 17
Beth os nad yw'r bleidlais ar bapur pleidleisio yn glir?.....20
Beth sy'n digwydd i'r gwaith papur ar ôl i gyfansymiau lleol gael eu datgan? 21
Cyfrifo'r canlyniad rhanbarthol 21
Pwy all fynychu'r cyfrifiad y canlyniad rhanbarthol? 21
Pryd a lle fydd y cyfrifiad o'r canlyniad rhanbarthol yn cael ei gynnal? 22
Dyrannu seddi 22
Gwybodaeth atodol 24
Papurau pleidleisio amheus 24

Gwybodaeth hanfodol

Mae'r adran hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar ymgyrchu yn etholiad Senedd Ewrop yn Lloegr, yr Alban a Chymru ar 22 Mai 2014. Ceir gwybodaeth atodol yng nghefn y ddogfen hon. Gallwch hefyd weld y canllawiau atodol trwy glicio ar y dolenni yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar y pennawd pennod ar y dudalen gynnwys.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â'ch swyddfa Comisiwn leol os gwelwch yn dda os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Yn y ddogfen hon, defnyddiwn 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd (p'un a yw'n unigolyn ynteu wedi ei gynnwys ar restr plaid). Defnyddiwn 'rhaid' i gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol a 'dylai' i argymell ffordd o weithredu.

Rydym wedi cynnwys terfynau amser perthnasol trwy gydol y ddogfen hon, ond gallwch ddod o hyd i amserlen etholiad ar wahân sy'n nodi'r holl ddyddiadau allweddol ar ein gwefan. O ganlyniad i ŵyl y banc yn Gibraltar ar 28 Ebrill 2014, mae rhai terfynau amser etholiadol yn rhanbarth y De Orllewin yn wahanol i'r dyddiadau cau mewn mannau eraill ym Mhrydain Fawr. Lle bo hyn yn berthnasol

Agor pleidleisiau drwy'r post

1.1 Mae gan ymgeiswyr, asiantiaid etholiad ac is-asiantiaid i gyd yr hawl i fynychu agor y pleidleisiau post a ddychwelwyd. Gall asiant etholiadol hefyd benodi rhywun arall i fod yn bresennol yn eu lle. Yn ogystal, gall asiantiaid etholiad ac is-asiantiaid benodi asiantiaid yn benodol i fynychu agoriadau ar eu rhan. Gweler Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd unigol neu Ran 2b: Sefyll fel ymgeisydd plaid am fanylion ynghylch sut i benodi'r asiantiaid hyn.

Nid oes gan ymgeiswyr, asiantiaid etholiad, is-asiantiaid ac asiantiaid pleidleisio drwy'r post yr hawl i fynychu **danfon**

4

Beth mae asiant pleidleisio drwy'r post yn ei wneud?

1.2 Caniateir i asiant pleidleisio drwy'r post fynychu ac arsylwi ar sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post, sy'n cael eu rhedeg gan y Swyddog Canlyniadau Lleol. Ym mhob sesiwn agor, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn dilysu pob pleidlais bost a ddychwelwyd a phenderfynu a yw'r dyddiad geni a llofnod a ddarparwyd gan etholwyr ar eu datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cyfateb i'r llofnod a'r dyddiad geni a ddarparwyd eisoes, ac sy'n cael eu dal ar eu cofnodion. Os nad ydynt yn cyfateb, bydd y bleidlais bost yn cael ei gwrthod.

1.3 Mae gan asiant pleidleisio drwy'r post yr hawl i arsylwi, ond nid i ymyrryd, yn y broses hon. Fodd bynnag, gall asiant pleidleisio drwy'r post wrthwynebu penderfyniad Swyddog Canlyniadau Lleol i wrthod pleidlais bost. Ni fydd yn effeithio ar benderfyniad y Swyddog Canlyniadau Lleol, ond bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn cofnodi unrhyw wrthwynebiadau drwy farcio'r datganiad pleidleisio drwy'r post gyda'r geiriau 'gwrthwynebwyd y gwrthodiad'.

1.4 Fel asiantiaid pleidleisio drwy'r post, mae gan ymgeiswyr, asiantiaid etholiad ac is-asiantiaid hefyd yr hawl i wrthwynebu gwrthodiad.

Beth yw pleidleisio drwy'r post?

1.5 Gall pobl sy'n 18 oed neu hŷn ar y gofrestr etholiadol wneud cais i bleidleisio drwy'r post drwy gyflwyno cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Rhaid i'r cais gael ei dderbyn gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn **5pm ar ddydd Mercher 7 Mai, 2014.** Gall y rhai sydd wedi eu penodi i bleidleisio fel dirprwy ar ran rhywun arall hefyd wneud cais am bleidlais drwy'r post drwy wneud cais erbyn **5pm ar ddydd Mercher 7 Mai, 2014.** Nid oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw ddisgresiwn i ymestyn y terfyn amser am unrhyw reswm.

Beth mae'r pecyn pleidleisio drwy'r post yn ei gynnwys?

- Amlen A yw'r amlen a ddefnyddir gan yr etholwr i ddychwelyd ei bapur pleidleisio. Mae wedi ei marcio gyda'r llythyren 'A' a'r geiriau 'amlen papur pleidleisio'
- Amlen B yw'r amlen a ddefnyddir gan yr etholwr i ddychwelyd amlen y papur pleidleisio a'r datganiad pleidleisio drwy'r post. Mae wedi ei marcio â'r llythyren 'B' a chyfeiriad y Swyddog Canlyniadau Lleol
- Mae'r papur pleidleisio yn cynnwys enwau'r pleidiau, ymgeiswyr ar restrau pleidiau a'r ymgeiswyr annibynnol sy'n sefyll am etholiad.

Os yw'r etholiad yn cael ei gyfuno â phleidlais arall, gellir cyfuno'r gwaith o anfon pleidleisiau drwy'r post.

Os felly, bydd y pecyn pleidlais drwy'r post hefyd yn cynnwys y papur

Pryd fydd y pecynnau pleidleisio drwy'r post yn cael eu hanfon allan?

1.6 Gellir dechrau anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post at etholwyr unwaith y bydd y datganiad o bersonau a phleidiau a enwebwyd wedi cael ei gyhoeddi. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cyhoeddi'r datganiad hwn i'r rhanbarth etholiadol ddim hwyrach na **5pm** ar **24 Ebrill, 2014 (5pm ar 23 Ebrill, 2014 yn rhanbarth etholiadol y De Orllewin)** os nad oes unrhyw wrthwynebiad. Os bydd gwrthwynebiadau, bydd y datganiad yn cael ei gyhoeddi ddim hwyrach na **4pm** ar **25 Ebrill, 2014 (4pm** ar **24 Ebrill,** 2014 yn rhanbarth etholiadol y De Orllewin). Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol neu'r Swyddog Canlyniadau Lleol perthnasol yn eich hysbysu o'r dyddiadau pryd y bydd papurau pleidleisio yn cael eu hanfon.

1.7 Yna bydd etholwyr yn marcio eu papur pleidleisio, cwblhau'r datganiad pleidleisio drwy'r post drwy ddarparu eu llofnod a'u dyddiad geni, a'u dychwelyd at y Swyddog Canlyniadau Lleol cyn cau'r bleidlais (h.y. erbyn 10pm ar y diwrnod pleidleisio).

Pryd mae pleidleisiau drwy'r post yn cael eu hagor a sut fyddwch chi'n gwybod pan fydd sesiwn agor yn cael ei chynnal?

1.8 Mae'n debygol y bydd nifer o sesiynau agor yn digwydd cyn y diwrnod pleidleisio, yn ogystal ag ar y diwrnod pleidleisio ei hun.

1.9 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol roi o leiaf 48 awr o rybudd o pryd a ble bydd y sesiynau'n cael eu cynnal i asiantiaid etholiadol neu eu his-asiantiaid, os penodir rhai. Byddant hefyd yn dweud wrth asiantiaid etholiadol neu eu his-asiantiaid, os penodir rhai, faint o asiantiaid pleidleisio drwy'r post a gaiff ganiatâd i fynychu pob sesiwn.

1.10 Cynhelir sesiwn agor derfynol ar ôl i'r polau gau, er mwyn agor unrhyw bleidleisiau drwy'r post gweddilliol a dderbyniwyd ar y diwrnod pleidleisio ei hun, gan gynnwys unrhyw rai a ddychwelwyd i'r gorsafoedd pleidleisio. Gall y sesiwn gael ei chynnal yn y lleoliad dilysu neu mewn lleoliad arall. Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn cynghori asiantiaid etholiadol neu eu his-asiantiaid, os penodir rhai, o'r lleoliad ar gyfer yr agoriad terfynol.

Dyletswydd i gynnal cyfrinachedd

1.11 Ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu sesiwn agor geisio edrych ar farciau na rhifau adnabod ar bapurau pleidleisio, datgelu sut mae unrhyw bapur pleidleisio penodol wedi cael ei farcio, na throsglwyddo unrhyw wybodaeth o'r fath a gafwyd o'r sesiwn. Gall unrhyw un a geir yn euog o dorri'r gofynion hyn wynebu dirwy o hyd at £5,000, neu gael ei garcharu am hyd at chwe mis.

Gofynion cyfrinachedd – Cymraeg a Saesneg

Gofynion cyfrinachedd –

Siart lif y broses sesiwn agor

1.12 Mae pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am drefnu a gweinyddu'r broses agor, ond gellir crynhoi'r cyfnodau allweddol fel a ganlyn:



Nid oes gofyn i nifer fechan iawn o bleidleiswyr lofnodi eu datganiad pleidleisio drwy'r post. Bydd y pleidleiswyr yma wedi cael hepgoriad oherwydd nad ydynt yn medru llofnodi neu roi llofnod cyson oherwydd anabledd neu anallu i ddarllen neu ysgrifennu. Bydd y datganiad pleidleisio drwy'r post a anfonir i etholwyr o'r fath yn dweud hyn yn glir.

Bydd y Swyddog Canlyniadau lleol yn paru'r dogfennau pleidleisio drwy'r post a dderbyniwyd ar wahân, ar yr amod bod y datganiad wedi ei gwblhau yn gywir a'i dderbyn erbyn i'r bleidlais gau.

8

8 Os yw'r datganiad **neu** amlen y papur pleidleisio ar goll, neu nad yw'r rhifau ar y datganiad a'r amlen papur pleidleisio yn cyd-fynd, caiff y dogfen(nau) eu rhoi o'r neilltu, eu cofnodi a'u storio mewn

9 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol neu eu dirprwy wirio dyddiadau geni a llofnodion ar bob datganiad a bod yn fodlon eu bod yn cyfateb i'r rhai a roddir ar geisiadau gwreiddiol yr

10 Yn dilyn dilysu'r llofnodion a dyddiadau geni, mae'r datganiadau pleidleisio drwy'r post yn cael eu tynnu oddi ar y byrddau

1 Mae staff yn agor amlenni'r papurau pleidleisio (amlen A) ac yn tynnu allan y papur pleidleisi

1 Mae staff yn gwirio bod y rhif ar gefn y papur pleidleisio yn cyfateb i'r rhif ar amlen y papur pleidleisio (amlen A)

1 Mae'r papurau pleidleisio dilys (**nid** y pleidleisiau) yn cael eu cyfrif a chyfanswm y nifer

1 Mae'r holl bapurau pleidleisio dilys yn cael eu rhoi mewn blychau pleidleisio a'u storio'n ddiogel cyn cael eu danfon i leoliad y cyfrif i'w cyfrif ar ôl

Datganiadau pleidleisio drwy'r post sy'n annilys ac a wrthodwyd

1.13 Bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol (neu ddirprwy a benodwyd) yn gwrthod datganiad pleidleisio drwy'r post os yw'r llofnod a/neu ddyddiad geni ar goll, neu os nad yw llofnod a/neu'r dyddiad geni yn cyfateb i'r hyn a ddarparwyd yn flaenorol gan yr etholwr, ac sy'n cael eu dal ar y cofnodion.

1.14 Dim ond y pleidleiswyr drwy'r post hynny sydd wedi cael hepgoriad gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol (naill ai oherwydd anallu i ddarllen neu ysgrifennu, neu oherwydd nad ydynt yn gallu llofnodi mewn modd cyson) sydd ddim angen cyflwyno llofnod ar y datganiad pleidleisio drwy'r post. Fodd bynnag, rhaid i bob pleidleisiwr drwy'r post roi eu dyddiad geni ar y datganiad pleidleisio drwy'r post.

1.15 Mae datganiadau a wrthodwyd yn cael eu rhoi ynghlwm wrth y papur pleidleisio neu amlen y papur pleidleisio perthnasol. Maent yn cael eu marcio fel 'gwrthodwyd' a'u dangos i unrhyw asiantiaid sy'n bresennol.

1.16 Gall asiantiaid wrthwynebu penderfyniad y Swyddog Canlyniadau Lleol i wrthod unrhyw bleidlais drwy'r post ac, os ydynt yn gwneud hynny, caiff y geiriau 'gwrthwynebwyd y gwrthodiad' ei ychwanegu ati. Fodd bynnag, mae penderfyniad y Swyddog Canlyniadau Lleol yn derfynol a bydd y bleidlais drwy'r post yn parhau wedi'i gwrthod. Dim ond trwy ddefnyddio deiseb etholiad y gellir herio'r penderfyniad i wrthod pleidlais drwy'r post. Am fwy o fanylion am ddeisebau etholiad, gweler Rhan 6: Ar ôl datgan y canlyniad.

Gorsafoedd pleidleisio

1.17 Mae gan ymgeiswyr ac asiantiaid etholiadol (neu is-asiant, os nad yw'r asiant etholiadol yn bresennol) yr hawl i arsylwi ar y gweithrediadau tu mewn i orsafoedd pleidleisio. Yn ogystal, gellir penodi asiantiaid pleidleisio yn benodol i fynychu gorsafoedd pleidleisio. Gweler Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd

unigol neu Ran 2b: Sefyll fel ymgeisydd plaid i gael manylion am sut i benodi asiantiaid pleidleisio.

Pwy all bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio?

1.18 Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dewis pleidleisio'n bersonol yn eu gorsaf bleidleisio. Mae unrhyw berson ar gofrestr etholiadol yr orsaf bleidleisio yn gallu pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio mewn etholiad Senedd Ewrop, oni bai:

- eu bod wedi cofrestru i bleidleisio drwy'r post
- eu bod wedi cofrestru i bleidleisio drwy ddirprwy a bod eu dirprwy eisoes wedi pleidleisio drostynt neu wedi gwneud cais i bleidleisio ar eu rhan drwy'r post
- nad ydynt yn 18 oed neu hŷn ar y diwrnod pleidleisio

1.19 Bydd etholwyr yn derbyn cerdyn pleidleisio cyn yr etholiad yn dweud wrthynt ble a phryd y gallant bleidleisio. Nid oes angen i etholwyr fynd â'u cerdyn pleidleisio i'r orsaf bleidleisio er mwyn pleidleisio.

1.20 Ni all pleidleiswyr sydd wedi cofrestru i bleidleisio drwy'r post dderbyn papur pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, ond gallant ei ddychwelyd neu ei ddanfon â llaw i'w gorsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio. Fel arall, gallant ddychwelyd eu pleidlais drwy'r post i unrhyw orsaf bleidleisio arall yn ardal eu hawdurdod lleol (bydd swyddfa etholiadau'r awdurdod lleol yn gallu rhoi manylion) neu â llaw i'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn y swyddfa etholiadau. Rhaid i becynnau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd i orsafoedd pleidleisio gael eu rhoi i staff yr orsaf bleidleisio ac ni ddylid eu rhoi yn y blwch pleidleisio.

Yr unig etholwyr sydd angen mynd â cherdyn pleidleisio gyda nhw yw'r rheiny sydd wedi cofrestru'n ddienw oherwydd risg i'w

Mewn etholiad cyfun, dim ond i rai gorsafoedd pleidleisio penodol y gall pleidleiswyr drwy'r post ddychwelyd

Bydd etholwr sydd yn yr orsaf bleidleisio neu mewn ciw yn eu gorsaf bleidleisio am 10pm i dderbyn papur pleidleisio yn cael

Oriau agor gorsafoedd pleidleisio

1.21 Bydd y gorsafoedd pleidleisio ar agor ar y diwrnod pleidleisio rhwng 7am a pm.

Dod o hyd i leoliad y gorsafoedd pleidleisio

1.22 Rhaid i bob Swyddog Canlyniadau Lleol roi hysbysiad cyhoeddus o leoliad y gorsafoedd pleidleisio a rhaid iddynt roi copi o'r hysbysiad hwn i asiantiaid etholiadol.

Er y gall asiant pleidleisio arsylwi ar y bleidlais, nid oes raid iddynt fod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio er mwyn i weithdrefnau pleidleisio a rhai

Beth mae asiant pleidleisio yn ei wneud?

1.23 Mae gan asiantiaid pleidleisio nifer o rolau pwysig i'w chwarae ar y diwrnod pleidleisio. Maent yn gallu:

- bod yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio cyn agor y bleidlais i wylio'r Swyddog Llywyddu yn dangos fod y blwch pleidleisio yn wag cyn ei selio
- canfod cam-bersonadu ac atal pobl rhag pleidleisio fwy nag unwaith yn yr etholiad (heblaw fel dirprwyon)
- bod yn bresennol pan fydd y Swyddog Llywyddu yn marcio papur pleidleisio ar gais etholwr sydd angen cymorth i farcio papur pleidleisio oherwydd anabledd neu anallu i ddarllen neu ysgrifennu
- adrodd i'r blaid neu'r ymgeisydd a'u penododd ynghylch unrhyw weithgareddau amhriodol a chadw nodiadau, os oes angen, er mwyn rhoi tystiolaeth yn y llys
- bod yn bresennol ar ddiwedd y pleidleisio pan fydd y gwahanol becynnau o ddogfennau yn cael eu selio
- atodi eu sêl at unrhyw becynnau a ffurfir gan y Swyddog Llywyddu ar ddiwedd y bleidlais, gan gynnwys y blwch pleidleisio

Cambersonadu yw pan fydd unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall (boed yr unigolyn

Ni ellir rhoi sêl asiant pleidleisio ynghlwm wrth flychau pleidleisio ar gychwyn pleidlais nac yn ystod y bleidlais

1.24 Cewch chi, eich asiant etholiad ac is-asiantiaid, os penodir rhai, wneud unrhyw beth a ganiateir i asiant pleidleisio ei wneud.

Cynnal cyfrinachedd y bleidlais

1.25 Mae gan unrhyw un sy'n mynychu gorsaf bleidleisio ddyletswydd i gynnal cyfrinachedd y bleidlais. Yn benodol, ni chaniateir i'r wybodaeth ganlynol gael ei datgelu:

- enw neu rif etholiadol pwy sydd wedi pleidleisio neu heb bleidleisio
- rhif neu farc adnabod unigryw arall ar y papur pleidleisio

1.26 Ni ddylai unrhyw un sy'n mynychu gorsaf bleidleisio geisio canfod sut y mae pleidleisiwr wedi pleidleisio neu i bwy maent ar fin pleidleisio drosto.

1.27 Gall asiant pleidleisio nodi ar eu copi o'r gofrestr etholwyr y pleidleiswyr hynny sydd wedi gwneud cais am bapur pleidleisio. Os yw'r asiant pleidleisio yn gadael yr orsaf bleidleisio yn ystod yr oriau pleidleisio, rhaid iddynt adael y copi o'r gofrestr wedi'i marcio yn yr orsaf bleidleisio, er mwyn sicrhau nad yw gofynion cyfrinachedd yn cael eu torri.

1.28 Gall unrhyw berson a geir yn euog o dorri'r gofynion cyfrinachedd wynebu dirwy o hyd at £5,000, neu gael ei garcharu am hyd at chwe mis.

Gofynion cyfrinachedd – Cymraeg a Saesneg

Gofynion

Beth yw'r broses bleidleisio arferol?

1.29 Mae'r broses bleidleisio arferol mewn gorsaf bleidleisio yn syml a gellir ei chrynhoi fel a ganlyn:

Bydd staff gorsaf bleidleisio yn…

- gofyn i bleidleiswyr am eu henw a'u cyfeiriad, a sicrhau eu bod yn gymwys i bleidleisio
- marcio llinell syth yn erbyn cofnod y pleidleisiwr ar y gofrestr etholwyr
- galw allan rif ac enw'r etholwr
- ysgrifennu rhif yr etholwr ar restr wrth ymyl rhif y papur pleidleisio sydd i'w roi
- sicrhau bod y papur pleidleisio yn cynnwys y marc swyddogol (e.e. cod bar neu ddyfrnod)

- plygu'r papur pleidleisio ac yna ei roi i'r pleidleisiwr heb ei blygu er mwyn iddynt allu gweld yr holl opsiynau ar y papur pleidleisio

Bydd pleidleisiwr yn …

- marcio'r papur pleidleisio yn breifat yn y bwth pleidleisio
- plygu'r papur pleidleisio a dangos rhif y papur pleidleisio a'r marc adnabod unigryw ar gefn y papur pleidleisio i'r Swyddog Llywyddu
- rhoi'r papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio a gadael yr orsaf bleidleisio

1.30 Gall y Swyddog Llywyddu helpu unrhyw un sy'n methu â marcio'r papur pleidleisio eu hunain. Fel arall, gall y pleidleisiwr ddod â rhywun gyda nhw maent yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddynt, i'w cynorthwyo i farcio eu pleidlais.

Casglu papurau pleidleisio drwy'r post o'r orsaf bleidleisio

1.31 Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol drefnu i gasglu unrhyw bleidleisiau drwy'r post y mae etholwyr wedi eu cyflwyno mewn gorsafoedd pleidleisio drwy gydol y diwrnod pleidleisio. Rhaid i'r Swyddog Llywyddu selio unrhyw bleidleisiau post a ddychwelwyd mewn pecyn cyn iddynt gael eu casglu. Gall unrhyw asiantiaid pleidleisio sy'n bresennol ychwanegu eu sêl eu hunain at y pecyn os ydynt yn dymuno.

Y Swyddog Canlyniadau lleol sy'n gyfrifol am gynnal yr etholiad yn eu hardal bleidleisio leol (h.y. ardal awdurdod lleol). Os ydynt yn bryderus am weithgareddau rhifwyr, gallant ofyn i'r rhifwyr gydymffurfio â'r ymddygiad y

Rhifwyr

1.32 Rhifwyr yw'r bobl sydd yn sefyll tu allan i fannau pleidleisio ac yn cofnodi rhif etholwr yr etholwyr sydd wedi pleidleisio. Wedyn, gallant adnabod y cefnogwyr tebygol nad ydynt eto wedi pleidleisio, a'u hannog i bleidleisio cyn i'r bleidlais gau.

1.33 Nid oes gan rifwyr statws cyfreithiol, a gall pleidleiswyr wrthod rhoi gwybodaeth iddynt.

1.34 Rydym wedi cynhyrchu taflen ffeithiau yr hyn ddylai rhifwyr ei wneud a pheidio ei wneud, yn ogystal â chanllawiau mwy cynhwysfawr ar weithgareddau rhifwyr. Nod y canllawiau yw sicrhau bod pawb yn gwybod beth yn union sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol, ac maent wedi'u cynllunio i hyrwyddo safonau ymddygiad priodol. Gall Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol hefyd ddarparu eu fersiwn eu hunain o ganllawiau i rifwyr.

Beth sy'n digwydd ar ôl i'r pleidleisio gau?

1.35 Mae'r blwch pleidleisio yn cael ei selio gan y Swyddog Llywyddu a gall asiantiaid pleidleisio ychwanegu eu sêl eu hunain ato os ydynt yn dymuno. Ar ôl i'r Swyddog Llywyddu gwblhau'r holl waith papur, caiff y blwch pleidleisio sydd wedi'i selio ei gludo i'r lleoliad dilysu.

Y dilysu a'r cyfrif

1.36 Mae'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am ddilysu a chyfrif y pleidleisiau a fwriwyd yn eu hardal gyfrif. Yna mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn casglu'r cyfansymiau cyfrif o bob ardal gyfrif leol i gyfrifo'r canlyniad i'r rhanbarth etholiadol..

1.37 Mewn etholiad Senedd Ewrop, gall dilysu ddigwydd ar unrhyw adeg ar ôl i'r bleidlais gau. Gall cyfrif pleidleisiau ddechrau ar unrhyw adeg ar ôl i ddilysu gael ei gwblhau, ond ni ellir gwneud y canlyniad (nad unrhyw ganlyniad dros dro) yn gyhoeddus hed nes bo'r pleidleisio wedi cau yng ngweddill yr Undeb Ewropeaidd, sef **10pm ar ddydd Sul 25 Mai 2014**. Os oes toriad rhwng dilysu a chyfrif, mae'r papurau pleidleisio a ddilyswyd yn cael eu storio'n ddiogel tan bo'r cyfrif yn dechrau (gweler paragraff **1.43**).

1.38 Bydd Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn cydlynu'r cyfrif yn eu rhanbarth a gallant roi canllawiau neu gyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau Lleol ynghylch pryd a sut y dylai'r cyfrif gael ei wneud. Bydd y Swyddogion

Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol yn gallu rhoi gwybodaeth i chi am y trefniadau dilysu a chyfrif.

1.39 Diben 'dilysu' yw sicrhau bod nifer y papurau pleidleisio yn y cyfrif yn cyfateb i'r nifer a ddisgwylir ar sail y gwaith papur o orsafoedd pleidleisio ac o agor y pleidleisiau drwy'r post.

1.40 Gelwir y nifer cyffredinol o bleidleisiau a fwrir mewn ardal gyfrif hefyd yn gyfanswm lleol. Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau Lleol ddarparu eu cyfansymiau lleol i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, sy'n gyfrifol am gyfrifo cyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob plaid neu ymgeisydd unigol yn y rhanbarth etholiadol yn gyffredinol (y 'canlyniad rhanbarthol'), ac am ddyrannu'r seddi.

1.41 Caiff seddi eu dyrannu trwy ddefnyddio system cynrychiolaeth gyfrannol (gweler paragraff **Error! Reference source not found.** am ragor o wybodaeth am y cyfrifiad).

Pwy all fynychu'r dilysu a'r cyfrif?

1.42 Mae gan y canlynol yr hawl i arsylwi ar y dilysu a'r cyfrif yn y rhanbarth etholiadol lle maent yn ymladd yr etholiad:

- yr ymgeiswyr ac un person arall a ddewisir gan bob un ohonynt
- asiantiaid etholiadol (neu is-asiant yn absenoldeb yr asiant etholiadol)
- asiantiaid cyfrif (Gweler Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd unigol neu Ran 2b: Sefyll fel ymgeisydd plaid i gael manylion am sut i benodi asiantiaid cyfrif).

1.43 Bydd y Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol yn darparu rhagor o wybodaeth i bleidiau, ymgeiswyr ac asiantiaid am y trefniadau i ddilysu a chyfrif pleidleisiau ar draws y rhanbarth etholiadol.

Pan fo etholiadau'n cael eu cyfuno, mae unrhyw hawl i arsylwi ar y dilysu neu'r cyfrif yn berthnasol tra bod papurau pleidleisio Senedd Ewrop yn cael eu dilysu a'u cyfrif, ond mae'n dod i ben unwaith y bydd y broses wedi ei chwblhau, hyd yn oed os yw

Beth mae asiant cyfrif yn ei wneud?

1.44 Mae gan asiantiaid cyfrif nifer o rolau pwysig i'w chwarae yn y dilysu a'r cyfrif:

- Maent yn arsylwi ar y broses a gwneud yn siŵr ei bod yn gywir.
- Gallant dynnu sylw staff cyfrif at unrhyw bapurau pleidleisio amheus.
- Os ydynt yn anghytuno â phenderfyniad y Swyddog Canlyniadau Lleol i wrthod papur pleidleisio, gallant ofyn i'r Swyddog Canlyniadau Lleol nodi ar y papur pleidleisio "gwrthwynebwyd y gwrthodiad".
- Os yw'r cyfrif yn cael ei atal dros dro am unrhyw reswm, neu os oes toriad rhwng diwedd y dilysu a dechrau'r cyfrif, gall asiantiaid cyfrif ychwanegu eu seliau pan fydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn selio'r blychau pleidleisio ac amlenni.

1.45 Cewch chi, eich asiant etholiad ac is-asiantiaid, os penodir rhai, wneud unrhyw beth a ganiateir i asiant cyfrif ei wneud.

Pryd a lle fydd y dilysu a'r cyfrif yn digwydd?

1.46 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol roi gwybod i asiantiaid cyfrif am amseriad a lleoliad eu dilysu a chyfrif lleol.

1.47 Er y gall cyfrif gychwyn cyn gynted ag y mae'r dilysu wedi'i gwblhau, ni all y canlyniad (nac unrhyw ganlyniadau dros dro) gael eu gwneud yn gyhoeddus hyd nes bo'r pleidleisio wedi cau yng ngweddill yr Undeb Ewropeaidd, sef **10pm ar ddydd Sul 25 Mai 2014**.

Sut fydd y pleidleisiau yn cael eu dilysu a'u cyfrif



1.48 Cam cyntaf unrhyw gyfrif yw dilysu. Mae pob blwch pleidleisio yn cael ei agor a nifer y papurau pleidleisio y tu mewn yn cael eu cyfrif. Wrth wirio blychau pleidleisio gorsafoedd pleidleisio, mae'r nifer hwn wedyn yn cael ei gymharu â nifer y papurau pleidleisio y mae'r Swyddog Llywyddu sy'n gyfrifol am y blwch wedi ei nodi a roddwyd allan ar y cyfrif papurau pleidleisio a gwblhawyd ganddynt ar ddiwedd y bleidlais. Wrth wirio blychau pleidleisio drwy'r post, mae'r nifer hwn yn cael ei gymharu â'r nifer y nododd y Swyddog Canlyniadau Lleol a oedd wedi eu selio yn y blwch ar ddiwedd y sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post.

1.49 Yn wahanol i etholiadau eraill, mae papurau pleidleisio etholiad Senedd Ewrop yn cael eu cadw **wyneb i lawr** drwy gydol y broses hon.

Pan fo'r etholiad wedi cael ei gyfuno â digwyddiad etholiadol arall, bydd yr holl flychau pleidleisio yn cael eu dilysu cyn i unrhyw ganlyniadau gael eu datgan.

Efallai y bydd blwch pleidleisio unigol i'r holl etholiadau neu flychau ar wahân i bob un. Sut bynnag, bydd papurau pleidleisio yn cael eu didoli i'r cystadlaethau ar wahân.

Bydd unrhyw bapur pleidleisio a ganfyddir mewn

Dilysu

3 Caiff y blychau pleidleisio eu gwagio ar fyrddau a dangosir y blychau gwag i'r asiantiaid

4 Mae staff yn cyfrif y papurau pleidleisio (wyneb i

5 Bydd staff yn gwirio bod y nifer o bapurau pleidleisio yn cyfateb i'r nifer o bapurau a roddwyd

6 Dangosir y nifer o bapurau pleidleisio a ddilyswyd i asiantiaid etholiad a chyfrif

7 Mae'r Swyddog Canlyniadau Lleol yn pennu'r rhesymau am unrhyw anghysondeb ac yn

8 Mae'r Swyddog Canlyniadau lleol yn cynhyrchu datganiad o'r dilysu. Gall asiantiaid weld neu gopïo'r datganiad hwn os dymunant

Weithiau bydd anghysondeb bychan rhwng y nifer o bapurau pleidleisio a gyfrifwyd a'r nifer disgwyliedig. Gall hyn fod, er enghraifft, oherwydd na fydd pleidleisiwr wedi

Cyfrif y pleidleisiau

1.50 Er mwyn diogelu cyfrinachedd y bleidlais, mae cynnwys blychau pleidleisio yn cael eu cymysgu ar ddechrau'r cyfrif (neu ar ddiwedd y dilysu). Yna bydd staff sy'n cyfrif y cyfansymiau lleol yn didoli'r papurau pleidleisio fesul plaid/ymgeisydd unigol ac yn cyfrif nifer y pleidleisiau a fwriwyd dros bob plaid ac

ymgeisydd unigol. Drwy gydol y cyfrif bydd y papurau pleidleisio yn cael eu cadw wyneb i fyny bob amser.

Ni all gwybodaeth am y nifer o bleidleisiau a fwriwyd i unrhyw blaid nac ymgeisydd gael ei gwneud yn gyhoeddus na'i rhannu gyda phleidiau, ymgeiswyr na'u hasiantiaid cyn

1.51 Unwaith y bydd y pleidleisiau wedi cael eu cyfrif, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn rhannu'r cyfansymiau lleol dros dro gyda'r ymgeiswyr ac unrhyw asiantiaid sy'n bresennol. Ar y pwynt hwn, gall y bobl ganlynol sy'n bresennol ofyn am ailgyfrif:

- yr ymgeiswyr
- asiantiaid etholiadol (neu is-asiant yn absenoldeb yr asiant etholiadol)
- un asiant cyfrif dynodedig ar gyfer pob ymgeisydd neu blaid unigol (am fwy o wybodaeth ynglŷn â dynodi asiant cyfrif a all ofyn am ailgyfrif gweler Rhan 2a: Sefyll fel ymgeisydd unigol a Rhan 2b: Sefyll fel ymgeisydd plaid a chanllawiau i bleidiau cofrestredig sy'n cyflwyno rhestrau plaid).

1.52 Gall y Swyddog Canlyniadau Lleol wrthod ailgyfrif os yw'n credu bod y cais yn afresymol.

1.53 Ar ôl cyfrif y pleidleisiau (a chynnal unrhyw ailgyfrif) bydd pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn hysbysu'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol o gyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd yn eu hardal gyfrif ar gyfer pob plaid ac ymgeisydd unigol.

1.54 Cyn y gall cyfanswm lleol gael ei ddatgan, rhaid iddo yn gyntaf gael ei awdurdodi gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol. Os yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn fodlon bod y cyfanswm yn gywir, bydd yn awdurdodi'r Swyddog Canlyniadau Lleol i rannu eu cyfanswm yn ffurfiol gyda'r ymgeiswyr ac asiantiaid a'i ddatgan yn lleol. Fel arall, os nad yw'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn fodlon bod y cyfanswm lleol yn gywir, efallai y bydd angen i'r Swyddog Canlyniadau Lleol gynnal ailgyfrif.

1.55 Mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn coladu'r cyfansymiau lleol ar gyfer yr holl ardaloedd cyfrif yn y

rhanbarth etholiadol ac yn cyfrifo cyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd dros bob plaid ac ymgeisydd unigol yn y rhanbarth etholiadol (am fwy o wybodaeth am gyfrifiad y canlyniad rhanbarthol gweler paragraff **Error! Reference source not found.** ymlaen).

Beth os nad yw'r bleidlais ar bapur pleidleisio yn glir?

1.56 Ni fydd papur pleidleisio yn cael ei gyfrif os:

- nad yw wedi ei farcio
- nad yw'n cynnwys y marc swyddogol
- yw'n cynnwys mwy nag un bleidlais
- nad yw'n dangos bwriad y pleidleisiwr gyda sicrwydd
- nad yw'r pleidleisiwr wedi nodi eu pleidlais gyda sicrwydd
- yw'n cynnwys unrhyw farc neu ysgrifen a all olygu y gellir adnabod y pleidleisiwr

1.57 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol lunio datganiad yn dangos nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd am y rhesymau hyn.

1.58 Os yw bwriad y pleidleisiwr yn glir ar bapur pleidleisio ac na ellir adnabod y pleidleisiwr trwy unrhyw farc neu ysgrifen, ni chaiff ei ddileu os yw'r bleidlais wedi ei marcio:

- mewn man arall heblaw'r man cywir
- trwy ddulliau heblaw croes (e.e. tic)
- trwy fwy nag un marc

1.59 Gweler paragraff **1.76** am ragor o wybodaeth ynglŷn â dyfarnu ar bleidleisiau sy'n ymddangos yn rhai amheus.

1.60 Mae'n rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Lleol nodi'r gair "gwrthodwyd" ar unrhyw bapur pleidleisio sy'n cael ei wrthod. Rhaid iddynt ychwanegu'r geiriau "gwrthwynebwyd y

gwrthodiad" os yw asiant cyfrif yn gwrthwynebu penderfyniad y Swyddog Canlyniadau Lleol.

Beth sy'n digwydd i'r gwaith papur ar ôl i gyfansymiau lleol gael eu datgan?

1.61 Yng Nghymru a Lloegr, rhaid i bob Swyddog Canlyniadau Lleol selio'r holl ddogfennaeth etholiad, ychwanegu disgrifiad o gynnwys bob pecyn, a'u hanfon ymlaen at y Swyddog Cofrestru Etholiadol i'r ardal awdurdod lleol. Yn yr Alban, bydd y Swyddog Canlyniadau Lleol yn cadw'r dogfennau hyn.

Cyfrifo'r canlyniad rhanbarthol

1.62 Unwaith bo'r cyfansymiau lleol wedi cael eu hawdurdodi, bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn eu coladu a'u hychwanegu at ei gilydd i gyfrifo cyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer pob plaid neu ymgeisydd unigol yn y rhanbarth etholiadol (y 'canlyniad rhanbarthol').

Pwy all fynychu'r cyfrifiad y canlyniad rhanbarthol?

1.63 Mae gan y canlynol yr hawl i arsylwi ar gyfrifo'r canlyniad rhanbarthol yn y rhanbarth etholiadol lle maent yn ymladd yr etholiad:

- ymgeiswyr ac un person arall a ddewisir gan bob un ohonynt
- asiantiaid etholiad (neu berson sy'n gweithredu ar eu rhan, fel is-asiant)
- Swyddog Enwebu pob plaid gofrestredig

Pryd a lle fydd y cyfrifiad o'r canlyniad rhanbarthol yn cael ei gynnal?

1.64 Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn hysbysu asiantiaid etholiadol pleidiau cofrestredig ac ymgeiswyr unigol o amser a lleoliad cyfrifo'r canlyniadau rhanbarthol.

1.65 Ni all y canlyniad rhanbarthol (nac unrhyw ganlyniad dros dro) gael ei gyhoeddi na'i rannu gyda phleidiau, ymgeiswyr na'u hasiantiaid cyn **10pm ar ddydd Sul 25 Mai,** pan fo pleidleisio wedi cau ar draws y cyfan o'r Undeb Ewropeaidd.

1.66 Unwaith bo'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi cyfrifo'r cyfansymiau rhanbarthol, bydd yn rhannu'r canlyniad dros dro gyda'r bobl a restrir ym mharagraff **Error! Reference source not found.**d sy'n bresennol, a gall y bobl hyn wneud cais ar y pwynt hwn am i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ailgyfrif y cyfansymiau.

1.67 Gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wrthod ail-gyfrifo'r cyfansymiau os yw'n credu bod y cais yn afresymol.

Dyrannu seddi

1.68 Dyrennir nifer penodol o seddi i'w llenwi i bob rhanbarth etholiadol (gweler y ddogfen Drosolwg am ddadansoddiad fesul rhanbarth etholiadol). Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cyfrifo dyraniad y seddi trwy ddefnyddio fformiwla fathemategol (fformiwla d'Hondt).

1.69 Mae'r sedd gyntaf yn cael ei dyrannu i'r blaid neu'r ymgeisydd unigol gyda'r nifer uchaf o bleidleisiau a fwriwyd yn y rhanbarth etholiadol. Mae pob sedd sy'n weddill yn cael ei dyrannu i'r blaid neu ymgeisydd unigol sydd â'r nifer uchaf o bleidleisiau ar ôl y cyfrifiad canlynol:

Cyfanswm nifer y pleidleisiau a dderbyniwyd gan y blaid/ymgeisydd unigol

Nifer y seddi a ddyrannwyd eisoes i'r blaid/ymgeisydd unigol + 1

1.70 Unwaith y dyrennir sedd i ymgeisydd unigol, neu fod plaid wedi derbyn dyraniad o gymaint o seddi ag sydd o ymgeiswyr ar ei rhestr, maent yn cael eu tynnu o'r cyfrifiad ar gyfer dyraniad y seddi sy'n weddill.

1.71 Mae'r seddi sydd gan bob plaid yr hawl iddynt yn cael eu llenwi gan yr ymgeiswyr yn y drefn y mae eu henwau yn ymddangos ar restr eu plaid.

1.72 Ar unrhyw adeg yn ystod y dyraniad o seddi, os oes gan ddwy neu fwy o bleidiau/ ymgeiswyr unigol yr un nifer o bleidleisiau ar ôl y cyfrifiad a ddangosir uchod, a bod y nifer hwn yn uwch na'r pleidiau/ ymgeiswyr unigol eraill, dyrennir sedd i bob un ohonynt.

1.73 Os nad oes digon o seddi ar ôl i hyn ddigwydd, caiff un bleidlais ei hychwanegu at gyfanswm nifer y pleidleisiau a fwriwyd dros y blaid/pleidiau/ymgeisydd neu ymgeiswyr unigol dan sylw, a chaiff y cyfrifiad ei ailadrodd.

1.74 Os ydynt yn dal i fod yn gyfartal, rhaid i'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol dynnu enw o het i benderfynu pa blaid neu ymgeisydd unigol y dyrennir sedd iddynt.

1.75 Unwaith y dyrennir pob sedd, bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn rhoi hysbysiad cyhoeddus o'r canlyniadau.

Am fanylion o'r hyn sy'n digwydd ar ôl datgan y canlyniad, gweler:

Rhan 6: Ar ôl datgan y

Gwybodaeth atodol

Papurau pleidleisio amheus

1.76 I gynorthwyo Swyddog Canlyniadau Lleol, yr ydym wedi cynhyrchu canllawiau ynglŷn â sut i ddyfarnu pleidleisiau ar bapurau pleidleisio sy'n ymddangos yn rhai amheus. Mae'r canllawiau hyn yn cael eu cynnwys yn ein llyfryn Ymdrin â phapurau pleidleisio amheus. Mae'r enghreifftiau a roddir yn y llyfryn yn seiliedig ar reolau etholiad. Er bod y dogfennau hyn yn cynnig canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Lleol, sylwer mai'r Swyddog Canlyniadau Lleol sy'n gyfrifol yn y pen draw am wneud penderfyniad ar bapurau pleidleisio unigol. Yn ogystal, gall y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd ddarparu canllawiau i Swyddogion Canlyniadau Lleol er mwyn sicrhau cysondeb dull ar draws eu rhanbarth etholiadol.

1.77 Mae penderfyniad y Swyddog Canlyniadau Lleol i wrthod papur pleidleisio penodol yn ystod y cyfrif neu unrhyw ailgyfrif yn derfynol, a dim ond mewn achos deiseb etholiad y gellir ei adolygu ar ôl datgan y canlyniad. Am fwy o fanylion am ddeisebau etholiad, gweler Rhan 6: Ar ôl datgan y canlyniad.